CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Bodorgan ar Nos Fawrth, 21ain Dachwedd 2017.

1 Presennol:

Cyng Gwilym Looms (Cadeirydd), Cyng Dafydd Jones, Cyng Gareth Evans, Cyng Myfyr Davies, Cyng Andrew Hughes, Cyng Jeffrey Hughes, Cyng Selwyn Williams, Cyng Alwyn Rowlands. Cynghorydd Sirol Mr Bryan Owen a Mr J Alun Foulkes (Clerc Dros Dro).

2 Ymddiheuriadau:

Cyng Gwen Burns a Cyng Gwilym Davies. Cynghorydd Sirol Mr Peter Rogers.

3 **Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

3.1 Soniwyd fod Cyng Gwen Burns wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Lerpwl ac fod y Cadeirydd wedi dymuno gwellhad buan iddi. Gweithredwyd y Cyngor Adran 85(1) o Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer Cyng Gwen Burns

4 **Datgan Diddordeb.**

Dangoswyd Diddordeb Rhagfarnol canlynol:

4.1 Cynghorydd Gareth Evans fel Tenant.

5 **Derbyn Cofnodion Cyfarfod y Cyngor – 19 Medi 2017.**

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir ar ôl cywiro cofnod (4.7) lle dylir cyfeirio Cyng Dafydd Jones fel Cadeirydd Pwyllgor y Ganolfan. (DGJ/MD).

Arwyddo.....

6 Materion yn Codi o'r Cofnodion.

6.1 Roedd Mr Alun Foulkes yn cynnig ei wasanaeth i'r Cyngor hyd at Mawrth 2019 er mwyn sefydlogi'r Cyngor. Diolchwyd iddo ac fe dderbyniwyd y cynnig yn unfrydol.

6.2 Lledu Lon, Bethel – adroddiad gan DGJ/AR fod y mater yma mewn llaw ac disgwylir i'r gwaith fod o fewn rhestr a cyllideb 2018/2019 y Cyngor Sir.

6.3 Carafan, Malltraeth – gadawyd y sefyllfa yn nhwylo Cynghorydd Sirol Bryan Owen a Peter Rogers.

6.4 Parcio, Hermon – parhau i ddisgwyl am adroddiad Cyng Sirol, Mr Peter Rogers.

6.5 Cyffordd Cefn Dderwen/Carreg Ceiliog Bach – adroddiad fod y sefyllfa yn parhau i fod yn annerbynniol – Cynghorydd Bryan Owen i ddilyn fyny gyda Swyddog o'r Cyngor Sir.

6.6 Nodwyd fod y Cyngor heb dderbyn adroddiad Mr Ian Hughes o'r Welsh Audit ar gyfer cyfrifon blynyddol 2013/14 & 2014/15.

6.7 Gofynwyd i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fod angen sylw a gwneud trefniadau adennill holl ddogfennau'r Cyngor sydd mewn cynhwysydd yng Nghefn Cwmwd erbyn y cyfarfod nesaf.

6.8 Gofynnir gwneud trefniadau o gywiro mandad y Banc a gofyn am fantolen – Cyng Andrew Hughes i wneud trefniadau gyda'r Banc.

6.9 Cadarnhawyd fod Mr Alun Foulkes wedi anfon llythyr i'r HMRC ynghylch y Cyngor a oedd wedi cofrestru ar gyfer TWE tan Gorffennaf 2017 yn gofyn am arweiniad.

6.10 Cadarnhawyd fod ymholiadau ynghylch a Gwefan y Cyngor mewn llaw.

6.11 Cadarnhawyd fod ymholiadau a threfniadau ad-daliad TAW wedi ei wneud.

6.12 Cadarnhawyd fod trefniadau gyda'r Cyngor Sir er mwyn derbyn ad-dalu costau Llwybrau y Cyngor Cymdeithas am 2016 wedi ei wneud.

6.13 Cytunwyd i Cyng Alwyn Rowlands ymgymeryd y cyfrifoldeb o cadw golwg ac archwilio'r caeau chwarae yn fisol fel rhan o bolisi risg y Cyngor.

MYNWENTYDD

7 Materion ~~Caeau Chwarae~~.

7.1 Roedd Cwmni Mon Grass Cutting wedi dangos diddordeb o ymgymeryd y gwaith o dorri gwair y caeau chwarae. Cyn symud ymlaen penderfynwyd yr aelodau o hysbysebu tendr a disgrifiad o'r gwaith ar wefan y Cyngor Sir ac ar yr hysbysfwrdd lleol ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

Arwyddo.....

8 Materion Llwybrau.

8.1 Cadarnhawyd penderfyniad cyfarfod Mis Medi ac roedd Cyng Alwyn Rowlands wedi creu dogfen manylder tendro am y gwaith sydd angen hysbysebiad yn y wasg a'r hysbysfyrddau lleol.

9 Materion Priffyrdd.

9.1 Angen gwydr ar yr A4080 gyferbyn ar ffordd o'r Maes Parcio i'r briffordd yn Malltraeth gan nad oes modd gweld cerbydau yn dod o gyfeiriad Niwbwrch tan tua hanner fordd allan os oes cerbydau wedi ei barcio yn y gilfan wrth y bont. Mae llinellau wedi ei rhoi ar ran o'r gilfan ond nid ydynt yn effeithiol. Penderfynwyd cysylltu gyda Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor Sir) er mwyn datrys.

9.2. Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi ei ymrwymo i wneud y gwaith yma yn flynyddol ac fe cadarnhawyd fod y gwaith a oedd angen torri gordyfiant/canghennau er mwyn ysgafnhau y sefyllfa ger cyffordd B4422 i'r A4080 eleni wedi ei wneud.

9.3 Nodwyd fod angen sylw gwrychyn a oedd yn gordyfu ger 5 Iorwerth Terrace – Cyng Sirol, Bryan Owen i gysylltu gyda aelod Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.

9.4 Nodwyd fod problem parcio ger cyffordd Siop Malltraeth a cadw golwg ar y sefyllfa.

10 Hysbysfwrdd

10.1 Roedd angen ystyried prynu hysbysfwrdd newydd yn Fynwent Trefdraeth ac wrth cilfan bws, Bethel.

11 Materion Mynwentydd.

11.1 Cadarnhawyd fod cofrestrau newydd wedi ei prynu ar gyfer ymchwilio ar sawl sydd wedi claddu yn ystod y pedair blynedd olaf er mwyn sicrhau fod y cofrestr a papurau'r Cyngor yn gywir ac bydd prisiau claddu yn cael ei adolygu er mwyn cymeradwyo yn y flwyddyn newydd.

Arwyddo.....

12 Taliadau & Derbyniadau:

Taliadau.

12.1.1 Bodorgan Properties – Rhent Hanner Blwyddyn (Mai – Tachwedd 2017) – £1,612.75.

12.1.2 Mr Alwyn Rowlands – Costau Cynnal & Chadw Mynwentydd & Llwybrau yn cynnwys y Cob Malltraeth & Cwt Glas, Malltraeth - £3,385.00

Derbyniadau

12.2.1 R Hughes & Son – Ffi Gosod Carreg Fedd – Diweddar William J Evans - £160.00.

12.2.2 John Hughes & Son – Costau Claddu – Diweddar Bryan Newns Austin - £480.00

12.2.3 Cyngor Sir Ynys Mon – Ad-Daliad Costau Llwybrau 2016 - £650.00

13 Ceisiadau Cynllunio Newydd.

13.1 Cais Llawn ar gyfer Addasu & Ehangu yn:
LLEOLIAD: Cartref Preswyl y Rhos, Malltraeth – 15C1M – **DIM SYLWADAU.**

13.2 Cais Adran 73 Amrywio Amod (02) o benderfyniad apel cyfeirnod APP/L6805/A/ 13/2194277 yn:
LLEOLIAD Hen Feudy, Fferam Bailey, Trefdraeth, Bodorgan – 15C29M/VAR – **DIM SYLWADAU.**

14 GOHEBIAETH

14.1 Nodwyd gohebiaeth ynghylch a costau claddu unrhyw berson dan 18 – wedi ymateb dogfen y cynulliad.

14.2 Nodwyd pwysigrwydd fod pob aelod yn gyfarwydd gyda'r Côd Ymddygiad ac y dylsai mynychu cyrsiau lleol sydd wedi ei drefnu ar gyfer Cynghorau Tref & Chymuned.

14.3 Dogfen Horizon - nodwyd ac fe cafwyd trafodaeth ynghylch a cadw gwastraff ar safle Wylfa cyn daw safle addas ddod ar gael

15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 16 IONAWR 2018.

15.1 Diolchodd y Cadeirydd i pob aelod am fynychu. Clowyd y cyfarfod am 8:35yh.

Arwyddo.....**Cadeirydd**.....16.01.2018..**Dyddiad.**